Cyngor Fferyllol Cyffredinol

# Gwneud penderfyniadau da:

## Canllaw ar gyfer gwrandawiadau addasrwydd i ymarfer a'u canlyniadau

**Adolygwyd Mawrth 2024**

Gellir atgynhyrchu testun y ddogfen hon (heblaw am y logo a'r brandio) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, cyn belled â'i fod yn cael ei atgynhyrchu'n gywir a heb fod mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod mai gan y Cyngor Fferyllol Cyffredinol y mae'r hawlfraint a rhaid nodi teitl y ddogfen. Os ydych wedi dyfynnu deunydd gan drydydd partner rhaid i chi gael caniatâd deiliad yr hawlfraint.

Cysylltwch â ni ar **communications@pharmacyregulation.org** os hoffech gopi o'r ddogfen mewn fformat arall (mewn print mwy, er enghraifft, neu mewn iaith arall).

© Cyngor Fferyllol Cyffredinol 2024

# Cynnwys


Amdanom ni....4

1.Cyflwyniad ....5

Rhan a: Gwrandawiadau a'r broses gwneud penderfyniadau ....8

2. Gwrandawiadau ....9

3. Ar ôl i benderfyniad ar ganlyniad gael ei wneud....15

Rhan b: Canllaw ar ganlyniadau....20

4. Canlyniadau sydd ar gael ....21

5. Penderfynu ar ganlyniad....27

6. Rhagor o arweiniad ar feysydd penodol....34

# Amdanom ni

**Y Cyngor Fferyllol Cyffredinol (CFfC) sy'n rheoleiddio fferyllwyr, technegwyr fferyllol a fferyllfeydd cofrestredig yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Ein gwaith yw diogelu, hybu a chynnal iechyd, diogelwch a lles aelodau'r cyhoedd drwy gynnal safonau a ffydd y cyhoedd mewn fferylliaeth.**

Mae ein prif waith yn cynnwys:

- pennu safonau ar gyfer addysg a hyfforddiant fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol, a chymeradwyo ac achredu eu cymwysterau a'u hyfforddiant
- cynnal cofrestr o fferyllwyr, technegwyr fferyllol a fferyllfeydd
- gosod y safonau y mae'n rhaid i weithwyr fferyllol proffesiynol eu cyrraedd gydol eu gyrfa
- ymchwilio i bryderon nad yw gweithwyr fferyllol proffesiynol yn cyrraedd ein safonau, a rhoi camau ar waith i gyfyngu ar eu gallu i ymarfer pan fo angen hyn i ddiogelu cleifion a'r cyhoedd
- gosod safonau ar gyfer fferyllfeydd cofrestredig sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt ddarparu gwasanaeth diogel ac effeithiol i gleifion
- arolygu fferyllfeydd cofrestredig i gadarnhau eu bod yn cyrraedd ein safonau

Rydym wedi ymrwymo i ddiogelu, hyrwyddo a gwella iechyd a diogelwch pobl sy'n defnyddio gwasanaethau fferyllol yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Rhan bwysig o'r rôl honno yw delio â'r nifer fach o fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol sy'n methu â chyrraedd y safonau y gall y cyhoedd eu disgwyl yn rhesymol gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol.

# 1. Cyflwyniad

## Yr hyn y mae'r canllaw hwn amdano

1.1 Mae'r canllaw hwn yn sôn am ein gwrandawiadau addasrwydd i ymarfer, sut y gwneir penderfyniadau a'r canlyniadau y gall pwyllgorau benderfynu arnynt. Mae hefyd yn darparu canllawiau i bwyllgorau eu defnyddio wrth benderfynu pa ganlyniad sy'n briodol mewn unrhyw achos penodol.

1.2 Mae'r canllawiau hyn mewn dwy ran:

- Rhan a: Gwrandawiadau a'r broses gwneud penderfyniadau

  Mae'r rhan hon yn sôn am wrandawiadau addasrwydd i ymarfer, sut maent yn cyd-fynd â'r broses gwneud penderfyniadau a sut mae pwyllgor yn penderfynu pa ganlyniad sy'n briodol. Bydd yn cefnogi dealltwriaeth o sut mae'r pwyllgor yn dod i benderfyniad a beth yw'r gwahanol gamau, er mwyn sicrhau bod pob parti yn ymwybodol o'r cychwyn cyntaf pa ddull y bydd y pwyllgor yn ei ddilyn wrth benderfynu ar ganlyniad.

- Rhan b: Canllaw ar ganlyniadau

  Mae'r adran hon yn esbonio canllawiau'r CFfC o ran beth yw'r canlyniadau, a pha faterion neu ffactorau y dylai pwyllgor eu hystyried cyn penderfynu ar ganlyniad. Bydd yn cefnogi penderfyniadau cyson a chymesur gan y pwyllgor.

1.3 Bydd Rhan B y canllaw'n cael ei defnyddio'n bennaf gan y rhai sy'n cymryd rhan mewn gwrandawiadau, yn enwedig pwyllgorau addasrwydd i ymarfer, wrth ystyried pa ganlyniad sy'n briodol yn dilyn canfyddiad bod nam ar addasrwydd gweithiwr fferyllol proffesiynol i ymarfer. Mae'n amlinellu diben y canlyniadau sydd ar gael a'r ffactorau i'w hystyried wrth wneud penderfyniad.

## Ar gyfer pwy mae'r canllaw hwn

1.4 Mae'r canllaw hwn wedi'i anelu at bawb sy'n cymryd rhan mewn gwrandawiad addasrwydd i ymarfer. Mae hyn yn cynnwys staff CFfC, aelodau pwyllgor, gweithwyr fferyllol proffesiynol (boed yn ymddangos mewn gwrandawiad ai peidio) a'u cynrychiolwyr. Bydd hefyd yn ddefnyddiol i unrhyw un sydd â diddordeb mewn gwrandawiadau addasrwydd i ymarfer, gan gynnwys:

- cleifion ac aelodau'r cyhoedd sy'n ystyried codi pryder gyda'r CFfC am weithiwr proffesiynol
- cleifion ac aelodau'r cyhoedd sydd wedi codi pryder gyda'r CFfC am weithiwr proffesiynol

- cleifion a'u cynrychiolwyr
- sefydliadau amddiffyn
- cyrff rheoleiddio eraill, gan gynnwys yr Awdurdod Safonau Proffesiynol (PSA)
- y llysoedd

1.5 Byddwn yn adolygu'r canllaw hwn yn rheolaidd i:

- ystyried newidiadau i ddeddfwriaeth a'r gyfraith achosion
- sicrhau ei fod yn parhau'n 'addas at y diben' ac yn hygyrch i'n holl randdeiliaid.

## Cydraddoldeb ac amrywiaeth

1.6 Mae'r CFfC wedi ymrwymo i sicrhau cydraddoldeb, gwella amrywiaeth a meithrin cynhwysiant pan fydd yn gwneud ei waith. Rydym yn gwerthfawrogi amrywiaeth yn ein gweithlu o unigolion gwahanol (gan gynnwys ein gwneuthurwyr penderfyniadau), y cyhoedd a'r gweithwyr proffesiynol rydym yn eu rheoleiddio. Mae ein prosesau wedi'u cynllunio i fod yn deg, yn wrthrychol, yn dryloyw ac yn rhydd rhag gwahaniaethu, a bod pob rhanddeiliaid yn derbyn safon uchel o wasanaeth. Rydym yn cadw at yr egwyddorion a nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010 a'n **strategaeth a dull gweithredu parthed cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant**.

1.7 Disgwylir i'n gweithlu i gyd ddangos ein gwerthoedd a'u rhoi ar waith bob amser yn ystod y broses addasrwydd i ymarfer. Mae'r CFfC yn cynnal ac yn dilyn egwyddorion y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yn unol â Deddf Hawliau Dynol 1998.

# Rhan a: Gwrandawiadau a'r broses gwneud penderfyniadau

Mae'r rhan hon yn sôn am wrandawiadau addasrwydd i ymarfer, sut maent yn cyd-fynd â'r broses gwneud penderfyniadau a sut mae pwyllgor yn penderfynu pa ganlyniad sy'n briodol

# 2. Gwrandawiadau

2.1 Mae gwrandawiad addasrwydd i ymarfer yn un canlyniad posibl ac yn rhan o broses fanwl sy'n dechrau pan fyddwn yn derbyn pryder am addasrwydd gweithiwr proffesiynol i ymarfer[1]. Gall y broses hon ddod i ben ar sawl cam allweddol:

- ar ôl asesiad cychwynnol o'r pryder
- ar ôl cynnal ymchwiliad
- mewn cyfarfod o'r pwyllgor ymchwilio
- mewn gwrandawiad pwyllgor addasrwydd i ymarfer[2]

## Y canllaw a ddefnyddir ar bob cam o'r broses

2.2 Defnyddir canllawiau gwneud penderfyniadau ar bob cam i benderfynu pa gamau i'w rhoi ar waith.

- Defnyddir ein **meini prawf trothwy** yn y cyfnod ymchwilio i benderfynu a ddylid cyfeirio achos at y pwyllgor ymchwilio
- Defnyddir ein ***Gwneud penderfyniadau da: canllaw ar gyfer cyfarfodydd pwyllgor ymchwilio a'u canlyniadau***[3] gan y pwyllgor ymchwilio i'w helpu i ddelio ag achosion y mae'n gwneud penderfyniad arnynt

[1] Os yw'r honiad yn un y gall y CFfC ddelio ag ef
[2] Mae rhai achosion yn cael eu hatgyfeirio'n uniongyrchol gan y Cofrestrydd dan Erthygl 52 (2) (b) ac Erthygl 54 (1) (a) Gorchymyn Fferylliaeth 2010
[3] **www.pharmacyregulation.org/sites/default/files/document/good_decision_making-_investigating_committee_meetings_and_outcomes_guidance_.pdf**

- **Mae'r canllaw hwn** yn ymdrin â gwrandawiadau addasrwydd i ymarfer a'r penderfyniadau a wneir gan bwyllgor addasrwydd i ymarfer yn ystod gwrandawiad

2.3 Os caiff achos ei gyfeirio at y pwyllgor addasrwydd i ymarfer, bydd gwrandawiad fel arfer. Cynhelir y gwrandawiad gan banel o dri pherson (cadeirydd, aelod proffesiynol ac aelod lleyg).

2.4 Gall pobl eraill hefyd fod yn y gwrandawiad, gan gynnwys cynghorwyr cyfreithiol, cynghorwyr meddygol, staff CFfC a chynrychiolwyr gweithwyr proffesiynol. Fodd bynnag, gall rhai gweithwyr proffesiynol fynychu gwrandawiad heb gynrychiolydd. Yn yr amgylchiadau hyn, dylai cadeirydd y pwyllgor sicrhau bod esboniad byr o broses y gwrandawiad, gan gynnwys rolau'r gwahanol bobl yn y gwrandawiad a gwahanol gamau'r gwrandawiad, yn cael ei roi cyn i'r gwrandawiad ddechrau. Bydd cadeirydd y pwyllgor hefyd yn gwirio a oes gan y gweithiwr proffesiynol unrhyw anghenion, pryderon neu faterion penodol a allai effeithio ar ei allu i gymryd rhan yn y gwrandawiad.

2.5 Mae pwyllgorau'n gwrando ar dystiolaeth ac yn penderfynu a oes nam ar addasrwydd gweithiwr proffesiynol i ymarfer[4]. Mae'r pwyllgor addasrwydd i ymarfer yn annibynnol ar y CFfC. Mae'n atebol[5] am y penderfyniadau mae'n eu gwneud ac mae'n rhaid iddo ystyried y canllawiau a gynhyrchir gan y CFfC[6].

2.6 Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd y pwyllgor yn cynnal y gwrandawiad yn gyhoeddus. Ond gellir cynnal gwrandawiad yn llwyr neu'n rhannol yn breifat os yw'r pwyllgor yn fodlon bod buddiannau'r gweithiwr proffesiynol dan sylw, neu drydydd parti, wrth gynnal eu preifatrwydd, yn gorbwyso budd y cyhoedd o gynnal y gwrandawiad, neu'r rhan honno o'r gwrandawiad, yn gyhoeddus[7]. Os yw'r gwrandawiad yn ymwneud ag iechyd y gweithiwr proffesiynol, neu'n ymwneud â gorchymyn dros dro, rhaid i'r pwyllgor ei gynnal yn breifat. Fodd bynnag, os yw'n fodlon bod buddiannau'r gweithiwr proffesiynol dan sylw, neu drydydd parti, wrth gynnal eu preifatrwydd yn cael eu gorbwyso gan les y cyhoedd, gall gynnal y gwrandawiad yn gyhoeddus[8].

[4] Rhoddir ystyr nam ym mharagraff 2.12
[5] Mae'r Awdurdod Safonau Proffesiynol yn craffu ar bob penderfyniad a gall y penderfyniadau hefyd fod yn destun apêl – gweler adran 29 Deddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002
[6] Rheol 31 (14) - Gorchymyn Cyngor y Cyngor Fferyllol Cyffredinol (Rheolau Addasrwydd i Ymarfer a Diarddel ac ati) 2010
[7] Rheol 39 - Gorchymyn Cyngor y Cyngor Fferyllol Cyffredinol (Rheolau Addasrwydd i Ymarfer a Diarddel ac ati) 2010
[8] Rheol 39 - Gorchymyn Cyngor y Cyngor Fferyllol Cyffredinol (Rheolau Addasrwydd i Ymarfer a Diarddel ac ati) 2010

## Dod i benderfyniad

2.7 Yn ystod gwrandawiad mae'r pwyllgor yn dilyn proses tri cham cyn iddo ddod i benderfyniad ar y canlyniad sy'n briodol [9]. Wedi i'r pwyllgor glywed y dystiolaeth, rhaid iddo benderfynu:

- a yw'r **ffeithiau** a honnwyd wedi cael eu profi
- a oes **nam** ar addasrwydd y gweithiwr proffesiynol i ymarfer
- a ddylid **gweithredu** mewn unrhyw ffordd yn erbyn cofrestriad y gweithiwr proffesiynol ai peidio. Ymdrinnir â hyn yn fanwl yn rhan b y canllaw hwn.

2.8 Wrth ddod i'w benderfyniadau, dylai'r pwyllgor hefyd ystyried amcanion cyffredinol y CFfC[10].




## Canfod ffeithiau

2.9 Mewn gwrandawiad, mae'n rhaid i'r CFfC brofi'r ffeithiau honedig yn erbyn gweithiwr proffesiynol. Y safon prawf sydd ar waith yw 'cydbwysedd tebygolrwydd'. Mae hyn yn golygu y bydd y pwyllgor yn canfod ffaith honedig wedi ei 'phrofi' os yw'n penderfynu, ar ôl clywed y dystiolaeth, ei bod yn fwy tebygol o fod wedi digwydd na pheidio â digwydd. Nid yw hyn yr un fath â safon y prawf mewn llys troseddol, sef 'fel eich bod yn sicr'.

2.10 Os bydd gweithiwr proffesiynol yn cyfaddef unrhyw un neu rai 'r ffeithiau a honnir, rhaid i'r pwyllgor farnu bod y ffeithiau y cyfaddefwyd iddynt wedi eu profi[11].

2.11 Os profir y ffeithiau yr honnir hwynt yn erbyn y gweithiwr proffesiynol, nid yw hynny o reidrwydd yn golygu y bydd canfyddiad o nam. Rhaid i benderfyniad pwyllgor ar nam fod ar wahân i'r penderfyniad ar ffeithiau'r achos. Er enghraifft, hyd yn oed os oes canfyddiad o gamymddwyn, gall pwyllgor benderfynu nad oes nam ar addasrwydd gweithiwr proffesiynol i ymarfer a gall ddod i'r casgliad nad oes angen unrhyw gamau gweithredu.

[9]Rheol 31 - Gorchymyn Cyngor y Cyngor Fferyllol Cyffredinol (Rheolau Addasrwydd i Ymarfer a Diarddel ac ati) 2010
[10] Erthygl 6 - Gorchymyn Fferylliaeth 2010
[11]Rheol 31 (6) - Gorchymyn Cyngor y Cyngor Fferyllol Cyffredinol (Rheolau Addasrwydd i Ymarfer a Diarddel ac ati) 2010

## Nam

2.12 Mae gweithwyr fferyllol proffesiynol yn "addas i ymarfer" pan fydd ganddynt y sgiliau, y cymeriad, y wybodaeth, yr ymddygiad a'r iechyd sydd eu hangen i weithio fel fferyllydd neu dechnegydd fferyllol yn ddiogel ac yn effeithiol. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu cynnal safonau cymhwysedd priodol, dangos cymeriad da, a glynu wrth yr egwyddorion arfer da a nodir yn ein safonau, ein canllawiau a'n dogfennau cyngor amrywiol.

2.13 Gall fod nam ar addasrwydd i ymarfer am nifer o resymau. Mae'r rhain yn cynnwys camymddwyn, diffyg gallu, peidio â meddu ar wybodaeth ddigonol o Saesneg, afiechyd neu euogfarn am drosedd[12].

2.14 Gall y pwyllgor ystyried honiadau am fywyd personol neu broffesiynol gweithiwr proffesiynol. Rhaid iddynt benderfynu a oes nam ar addasrwydd y gweithiwr proffesiynol i ymarfer ar hyn o bryd, nid ar yr adeg y digwyddodd y digwyddiad[13]. Rhaid i'r pwyllgor ystyried amcanion cyffredinol y CFfC wrth benderfynu a oes nam ar addasrwydd gweithiwr fferyllol proffesiynol i ymarfer[14]. Rhaid i'r pwyllgor hefyd ystyried ffactorau perthnasol, sy'n cynnwys a yw'r ymddygiad[15]:

- yn cyflwyno risg wirioneddol neu bosibl i gleifion neu'r cyhoedd
- wedi dwyn anfri ar enw da'r proffesiwn fferylliaeth, neu y gallai wneud hynny
- wedi torri un o egwyddorion hanfodol y proffesiwn fferylliaeth
- yn dangos na ellir bellach ddibynnu ar integriti'r gweithiwr proffesiynol

2.15 Dylai'r pwyllgor hefyd ystyried:

- a ellir mynd i'r afael â'r ymddygiad a arweiniodd at y gŵyn
- a aed i'r afael â'r ymddygiad a arweiniodd at y gŵyn
- a ydy'r ymddygiad a arweiniodd at y gŵyn yn debygol o gael ei ailadrodd
- a oes angen penderfynu bod nam er mwyn datgan a chynnal safonau ymddygiad priodol a/neu gynnal ffydd y cyhoedd yn y proffesiwn

2.16 Wrth benderfynu a oes nam ar addasrwydd person i ymarfer oherwydd nad oes ganddo'r wybodaeth angenrheidiol o'r Saesneg, gall y pwyllgor ystyried, ymhlith pethau eraill[16]:

- a yw'r person dan sylw wedi peidio â chydymffurfio â chyfarwyddyd, a roddwyd o dan y rheolau, i gael arholiad neu asesiad arall o'i wybodaeth o'r Saesneg, neu

[12] Erthygl 51 - Gorchymyn Fferylliaeth 2010
[13] Meadow v CMC [2007]
[14] Atodlen 1(5) (8) – Gorchymyn Fferylliaeth 2010
[15] Rheol 5 - Gorchymyn Cyngor y Cyngor Fferyllol Cyffredinol (Rheolau Addasrwydd i Ymarfer a Diarddel ac ati) 2010
[16] Rheol 24 (11a) - Gorchymyn Cyngor y Cyngor Fferyllol Cyffredinol (Rheolau Addasrwydd i Ymarfer a Diarddel ac ati) 2010

- a yw'r person dan sylw heb roi tystiolaeth i'r cofrestrydd o ganlyniad yr archwiliad neu'r asesiad hwnnw

2.17 Mae penderfynu bod nam yn dibynnu ar farn y pwyllgor. Mae'n rhaid i'r pwyllgor wneud ei benderfyniad ei hun ynghylch nam hyd yn oed pan fydd yn cael ei gyfaddef gan y gweithiwr proffesiynol. Dylai nodi'n glir pa ffactorau y mae wedi'u hystyried wrth benderfynu ar nam.

## Camau gweithredu

2.18 Os yw pwyllgor yn penderfynu bod nam ar addasrwydd gweithiwr i ymarfer, gall:

- beidio â rhoi camau gweithredu ar waith
- cytuno ar addewidion[17]
- rhoi rhybudd
- gosod amodau ar ymarfer y gweithiwr proffesiynol
- atal y gweithiwr proffesiynol rhag ymarfer, neu
- ddileu'r gweithiwr proffesiynol o'r gofrestr yn yr achosion mwyaf difrifol

2.19 Rhaid i'r pwyllgor, ar ôl ystyried y canllaw hwn, ystyried y canlyniad priodol yn yr achos dan sylw, cyhoeddi ei benderfyniad a rhoi ei resymau dros y penderfyniad hwnnw[18].

2.20 Bwriad y canlyniadau hyn yw diogelu'r cyhoedd, a budd ehangach y cyhoedd, nid cosbi'r gweithiwr proffesiynol. Mae rhagor o fanylion am y canlyniadau hyn, a'r hyn y mae pwyllgor yn ei ystyried wrth ddod i benderfyniad am ganlyniad penodol, yn rhan b y ddogfen hon.

## Y penderfyniad

2.21 Wedi i'r pwyllgor wneud penderfyniad ar bob cam o'r gwrandawiad, bydd yn rhoi ei 'benderfyniad' ysgrifenedig. Y penderfyniad yw'r datganiad ffurfiol gan y pwyllgor yn cyhoeddi ei benderfyniad ac yn egluro'r rhesymau drosto. Mae faint o fanylion y mae pwyllgor yn eu cynnwys mewn penderfyniad yn dibynnu ar natur a chymhlethdod yr achos. Ym mhob achos, dylai'r rhesymau fod yn ddigonol fel y gall y gweithiwr proffesiynol, y CFfC, yr achwynydd ac unrhyw barti arall sydd â diddordeb ddeall y penderfyniad yn hawdd. Rhaid iddo fod yn glir pam y gwnaed penderfyniad penodol.

2.22 Dylai'r pwyllgor sicrhau bod y penderfyniad ar y canlyniad yn cael ei egluro a'i ddeall yn llawn. Dylai'r penderfyniad ysgrifenedig egluro'r canlynol yn ofalus, mewn iaith glir ac uniongyrchol nad yw'n bosibl ei chamddeall nac yn cynnwys unrhyw amwysedd:

- ar ba ganlyniad mae'r pwyllgor wedi penderfynu

[17] Gweler paragraff 4.11
[18] Rheol 31 (14) - Gorchymyn Cyngor y Cyngor Fferyllol Cyffredinol (Rheolau Addasrwydd i Ymarfer a Diarddel ac ati) 2010

- y rhesymau dros y canlyniad, a
- pham mae'r pwyllgor yn fodlon bod y penderfyniad yn ddigonol i ddiogelu'r cyhoedd. Mae hyn yn golygu ystyried angen y pwyllgor i amddiffyn iechyd, diogelwch a lles y cyhoedd, cynnal ffydd y cyhoedd mewn fferylliaeth, a chynnal safonau proffesiynol ac ymddygiad priodol ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol.

2.23 Rhaid i bwyllgor ystyried y canllaw hwn wrth ddod i benderfyniad ar ganlyniadau. Os yw'n penderfynu peidio ag ystyried y canllaw, bydd disgwyl iddo egluro'n glir ei reswm dros beidio â gwneud hynny.

2.24 Dylai penderfyniad y pwyllgor esbonio pam mae'n credu bod y canlyniad yn angenrheidiol ac yn gymesur. Dylai ddweud sut gwnaeth y pwyllgor ystyried y canlyniadau posibl, gan ddechrau gyda'r lleiaf difrifol a symud i fyny. Dylai'r penderfyniad ddweud pam mae'r pwyllgor wedi penderfynu ar y canlyniad ac esbonio:

- pam nad yw'r canlyniadau llai yn ddigonol
- pam nad yw'r canlyniad nesaf, mwy difrifol, sydd ar gael yn angenrheidiol neu'n gymesur
- sut y bydd y canlyniad a ddewiswyd yn diogelu'r cyhoedd a budd ehangach y cyhoedd yn ddigonol

2.25 Mae'n bwysig, ac er tegwch, bod y gweithiwr proffesiynol yn cael rhesymau priodol, fel y gallant benderfynu a ddylid apelio yn erbyn y penderfyniad ai peidio. Rhaid i'r CFfC, yr achwynydd, y cyhoedd, yr Awdurdod Safonau Proffesiynol a gweithwyr fferyllol proffesiynol eraill hefyd allu deall y rhesymeg y tu ôl i benderfyniadau'r pwyllgor. Dylai unrhyw bwyllgor sy'n gorfod ystyried yr achos yn ddiweddarach (er enghraifft, mewn gwrandawiad adolygu) hefyd allu deall y rhesymeg y tu ôl i'r penderfyniad gwreiddiol.

# 3. Ar ôl i benderfyniad ar ganlyniad gael ei wneud

3.1 Wedi i bwyllgor wneud penderfyniad ar ganlyniad, gall hefyd osod 'mesurau dros dro' sy'n dod i rym ar unwaith. Wedi i'r gwrandawiad ddod i ben, efallai y bydd gwrandawiad adolygu ar ddyddiad arall. Mae hyn yn dibynnu ar ganlyniad ac amgylchiadau'r achos.

## Mesurau dros dro

3.2 Gall y pwyllgor osod mesurau dros dro os yw wedi gwneud cyfarwyddyd ar gyfer:

- dileu o'r gofrestr
- gwahardd dros dro
- cofnod amodol ar y gofrestr[19]

3.3 Gall y Pwyllgor osod mesurau dros dro [20]os yw'n hyderus bod eu hangen i ddiogelu'r cyhoedd, neu eu bod er budd y cyhoedd mewn rhyw ffordd arall neu er budd y gweithiwr proffesiynol. Bydd unrhyw fesurau dros dro'n dod i rym yn syth a gallant fod ar waith am y 'cyfnod apelio' 28 niwrnod. Os bydd y gweithiwr proffesiynol yn apelio yn erbyn y penderfyniad, bydd y mesurau'n parhau mewn grym tan i'r apêl honno gael ei phenderfynu.

3.4 Cyn ystyried a ddylid gosod mesurau dros dro, dylai'r pwyllgor wahodd sylwadau gan y ddau barti. Wrth gyhoeddi a yw am osod mesurau dros dro, bydd y pwyllgor yn rhoi ei resymau dros y penderfyniad hwnnw. Wrth ystyried a ddylid gosod mesurau dros dro ai peidio, dylai'r pwyllgor gofio:

- Y canlyniad mae wedi'i wneud, ac
- Unrhyw risg i'r cyhoedd

3.5 Hyd yn oed os yw'n penderfynu peidio â gosod mesurau dros dro, dylai'r pwyllgor nodi'n glir yn ei benderfyniad ei fod wedi eu hystyried a pham mae wedi penderfynu peidio â'u gosod.

3.6 Dylai'r pwyllgor roi rhesymau priodol, digonol a chlir dros osod mesurau dros dro a sicrhau bod y mesurau'n gyson â'i ganfyddiadau bod nam ar addasrwydd y gweithiwr proffesiynol i ymarfer ar hyn o bryd. Dylai'r rhesymau esbonio pam mae'r pwyllgor yn fodlon bod gosod mesurau dros dro yn:

- Angenrheidiol i ddiogelu'r cyhoedd

[19] Erthygl 60 (3) a (4) - Gorchymyn Fferylliaeth 2010
[20] Erthygl 60 - Gorchymyn Fferylliaeth 2010

- Er budd y cyhoedd mewn rhyw ffordd arall, neu
- Er budd y gweithiwr proffesiynol

3.7 Dim ond os yw'r pwyllgor wedi penderfynu gwahardd y gweithiwr proffesiynol dros dro neu ei ddileu o'r gofrestr y dylid gosod mesurau dros dro ar ffurf gwahardd o'r gofrestr. Ni chaniateir gosod amodau dros dro ar gofnod gweithiwr proffesiynol yn y gofrestr oni bai bod y pwyllgor wedi penderfynu ar ganlyniad amodau.

## Gwrandawiadau adolygu

3.8 Gall gwrandawiadau adolygu[21] ddigwydd os:

- bydd gweithiwr proffesiynol yn cael ei atal o'r gofrestr yn dilyn gwrandawiad - bydd y pwyllgor fel arfer yn cyfarwyddo bod gwrandawiad adolygu yn digwydd cyn i'r cyfnod gwahardd dros dro ddod i ben
- bydd gweithiwr proffesiynol yn destun 'cyfarwyddyd amodau ymarfer' yn dilyn gwrandawiad - bydd y pwyllgor fel arfer yn cyfarwyddo bod gwrandawiad adolygu yn digwydd cyn i'r cyfnod cofrestru amodol ddod i ben

3.9 Gall pwyllgor adolygu'r mater cyn y dyddiad a bennwyd ar gyfer gwrandawiad adolygu. Er enghraifft, efallai y bydd gan y CFfC dystiolaeth bod y gweithiwr proffesiynol wedi ymarfer tra'i fod wedi'i wahardd neu wedi methu â chydymffurfio â'r amodau a osodwyd ar ei ymarfer. Gall y pwyllgor benderfynu ar ganlyniadau ychwanegol yn y gwrandawiad adolygu[22].

3.10 Os bydd y pwyllgor, mewn achos penodol, yn penderfynu nad oes angen gwrandawiad adolygu pellach, dylai roi rhesymau dros wneud y penderfyniad hwn. Os bydd gwrandawiad adolygu pellach, dylai'r pwyllgor egluro yn ei benderfyniad y math o dystiolaeth y byddai disgwyl i'r gweithiwr proffesiynol ei darparu yn y gwrandawiad hwnnw.

3.11 Os bydd y CFfC, cyn gwrandawiad adolygu, yn dod yn ymwybodol o dystiolaeth newydd* y mae am ei dwyn at sylw'r pwyllgor:

- gall y CFfC ofyn am gyfarwyddiadau rheoli achos
- gall cadeirydd y pwyllgor gyfarwyddo bod y dystiolaeth newydd yn cael ei hystyried yn y gwrandawiad adolygu, a bod y rheolau hyn yn cael eu newid i ystyried amgylchiadau penodol yr achos[23]

*(* Er enghraifft, tystiolaeth o fethu â chydymffurfio ag amodau, neu fod ar unrhyw un neu rai o'r rhestrau gwaharddedig.)*

[21] Gweler Rheol 34 - Gorchymyn Cyngor y Cyngor Fferyllol Cyffredinol (Rheolau Addasrwydd i Ymarfer a Diarddel ac ati) 2010 ar gyfer y weithdrefn a ddilynir mewn gwrandawiad adolygu

[22] Dileu ddim ar gael ar gyfer achosion iechyd

[23] Rheol 30 - Gorchymyn Cyngor y Cyngor Fferyllol Cyffredinol (Rheolau Addasrwydd i Ymarfer a Diarddel ac ati) 2010

3.12 Mewn gwrandawiad adolygu, rhaid i unrhyw ganfyddiad o nam a wneir gan y pwyllgor fod yn seiliedig ar yr honiad gwreiddiol. Bydd angen i'r pwyllgor ystyried a oes nam yn dal i fod ar addasrwydd y gweithiwr proffesiynol i ymarfer ar ôl ystyried yr holl wybodaeth sydd bellach ar gael. Disgwylir i'r gweithiwr proffesiynol ddarparu tystiolaeth yr aed i'r afael ag unrhyw nam yn y gorffennol[24]. Rhaid i'r pwyllgor hefyd ddilyn y canllaw hwn mewn gwrandawiad adolygu[25].

3.13 Bydd y CFfC yn monitro unrhyw amodau a osodir ar gofrestriad. Gall hyn olygu nad oes angen i'r pwyllgor ofyn am adolygiad cynnar o'r achos. Os bydd y CFfC wedyn yn darganfod unrhyw achos o dorri'r amodau, neu fethu â chydymffurfio â nhw, cynhelir gwrandawiad adolygu cynnar. Mae hyn er mwyn i'r pwyllgor benderfynu a ddylid parhau, addasu neu derfynu'r amodau a chyrraedd canlyniad mwy priodol.

[24]Abrahaem v CMC [2008] EWHC 183 (Gwein.)
[25]Rheol 34 (9a) - Gorchymyn Cyngor y Cyngor Fferyllol Cyffredinol (Rheolau Addasrwydd i Ymarfer a Diarddel ac ati) 2010

## Tabl 1: Gwahardd dros dro

| Ystyriaethau | Canlyniadau | Penderfyniad |
|---|---|---|
| Mewn rhai achosion gall fod yn amlwg, yn dilyn cyfnod byr o waharddiad dros dro, na fydd gwerth mewn gwrandawiad adolygu.<br><br>Fodd bynnag, yn y rhan fwyaf o achosion pan osodir gwaharddiad dros dro bydd angen i'r pwyllgor fod yn sicr bod y gweithiwr proffesiynol yn addas i ailddechrau ymarfer naill ai heb gyfyngiadau neu gydag amodau.<br><br>Bydd angen i'r pwyllgor hefyd ei fodloni ei hun bod y gweithiwr proffesiynol:<br>• wedi llwyr werthfawrogi difrifoldeb y toriad neu'r toriadau rheolau y mae wedi'u cyflawni<br>• heb gyflawni unrhyw achosion pellach o dorri'r safonau[26] | Os yw'r pwyllgor wedi gwahardd gweithiwr proffesiynol dros dro, gall benderfynu, yn dilyn adolygiad,[27]:<br>• bod eu cofnod yn cael ei dynnu o'r gofrestr (ddim mewn achos sy'n ymwneud ag iechyd yn unig)[28]<br>• bod y gwaharddiad dros dro'n cael ei ymestyn am gyfnod arall o hyd at 12 mis, gan ddechrau o'r adeg y byddai'r gwaharddiad gwreiddiol yn dod i ben fel arall<br>• bod y cofrestriad yn cael ei ddileu am gyfnod amhenodol, os yw'r gwaharddiad eisoes wedi bod ar waith am o leiaf ddwy flynedd[29]<br>• bod gwaharddiad amhenodol yn dod i ben<br>• dylid gosod amodau pan fydd y gwaharddiad yn dod i ben neu'n cael ei derfynu. | Pan fydd y Pwyllgor yn:<br>• dileu gorchymyn gwahardd ac yn gosod amodau ar gofrestriad y gweithiwr proffesiynol yn lle hynny, neu'n<br>• caniatáu i'r gweithiwr proffesiynol ddychwelyd i ymarfer anghyfyngedig<br><br>dylai'r penderfyniad egluro pam na fydd y penderfyniad hwn yn peryglu'r cyhoedd. |

[26] Erthygl 48 (1) - Gorchymyn Fferylliaeth 2010
[27] Erthygl 54 (3) (a) - Gorchymyn Fferylliaeth 2010
[28] Gweler paragraff 4.6
[29] Rhaid adolygu'r cyfarwyddyd hwn os yw'r gweithiwr proffesiynol yn gofyn am hynny a bod o leiaf dwy flynedd wedi bod ers i'r cyfarwyddyd ddod i rym neu gael ei adolygu: Erthygl 54 (4) - Gorchymyn Fferylliaeth 2010

## Tabl 2: Amodau

| Ystyriaethau | Canlyniadau | Penderfyniad |
|---|---|---|
| Yn y rhan fwyaf o achosion pan osodir amodau bydd angen i'r pwyllgor fod yn sicr bod y gweithiwr proffesiynol yn addas i ailddechrau ymarfer heb gyfyngiadau neu gydag amodau eraill neu ychwanegol. | Pan fydd cofnod gweithiwr proffesiynol yn y gofrestr yn amodol ar gydymffurfio ag amodau, gall y pwyllgor[30]:<br>• ymestyn y cyfnod ar gyfer cydymffurfio â'r amodau am hyd at 3 blynedd gan ddechrau o'r adeg y byddai'r cyfnod cynharach wedi dod i ben<br>• ychwanegu, dileu neu amrywio'r amodau<br>• dileu'r cofnod, am hyd at 12 mis<br>• dileu'r cofnod o'r gofrestr | Os yw'r pwyllgor yn adolygu amodau gweithiwr proffesiynol, dylai'r penderfyniad ddelio ag a yw'r gweithiwr proffesiynol wedi cydymffurfio â'r amodau, a sut y gwnaeth hynny.<br>Os yw'r pwyllgor yn penderfynu y bu methiant i gydymffurfio, rhaid iddo wneud canfyddiadau penodol.<br>Rhaid i'r rhain egluro pa amodau na chydymffurfiwyd â nhw, ym mha ffordd, ac ar ba dystiolaeth y mae'r pwyllgor wedi seilio'r penderfyniad hwnnw. |

[30]Erthygl 54 (3) (b) - Gorchymyn Fferylliaeth 2010

# Rhan b: Canllaw ar ganlyniadau

Mae'r adran hon yn esbonio canllawiau'r CFfC o ran beth yw canlyniadau, a pha faterion neu ffactorau y dylai pwyllgor eu hystyried cyn penderfynu ar ganlyniad.

Ni fwriedir i'r canllaw hwn ymyrryd â phwerau'r pwyllgor i ddewis pa ganlyniad bynnag y penderfyna arnynt mewn achosion unigol[31].

Dylai aelodau'r pwyllgor ddefnyddio eu crebwyll eu hunain wrth benderfynu ar y canlyniad. Dylent hefyd sicrhau bod unrhyw ganlyniad yn:

- angenrheidiol ac yn gymesur
- seiliedig ar ffeithiau unigol yr achos, ac
- er budd y cyhoedd

Wrth benderfynu ar y canlyniad priodol, rhaid i'r pwyllgor ystyried y canllaw hwn.  Os yw pwyllgor yn dewis peidio â dilyn y canllaw, dylai esbonio pam y mae wedi gwneud hyn wrth nodi ei resymau dros ddewis y canlyniad.

[31] CRHP v (1) GMC (2) Leeper [2004]

# 4. Canlyniadau sydd ar gael

4.1 Defnyddir camau gweithredu a osodir gan ganlyniadau addasrwydd i ymarfer i ddiogelu cleifion a budd ehangach y cyhoedd. Mae hyn yn cynnwys datgan a chynnal safonau ymddygiad priodol, a chynnal ffydd y cyhoedd yn y proffesiynau fferylliaeth ac yn y broses reoleiddio. Er bod effeithiau rhai canlyniadau – er enghraifft, gwahardd dros dro neu ddileu o'r gofrestr – yn gallu cael eu hystyried yn gosbol, ni ddylid dewis canlyniad yn unswydd i gosbi gweithiwr proffesiynol.

4.2 Gall y pwyllgor benderfynu ar ganlyniad, boed yn penderfynu bod nam ar addasrwydd gweithiwr proffesiynol i ymarfer ai peidio. Fodd bynnag, dim ond pan fernir bod nam ar addasrwydd i ymarfer y bydd y rhan fwyaf o ganlyniadau'n berthnasol. Mae'r tabl isod yn dangos y canlyniadau sydd ar gael.

## Canlyniadau ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol

4.3 Gall pwyllgor benderfynu ar unrhyw un neu rai o'r canlyniadau a nodir isod. Mae'r tabl yn cynnwys manylion pa ganlyniadau y gellir eu harddangos ar y gofrestr ar-lein. Mae ein **polisi cyhoeddi a datgelu** yn nodi am ba hyd y maent yn cael eu harddangos ar y gofrestr.

### Peidio â gweithredu

| Yr effaith ar gofrestriad | Amgylchiadau pan allai hyn fod yn berthnasol |
|---|---|
| Ni fydd unrhyw gamau'n cael eu gweithredu, bydd yr achos yn cael ei gau ac ni fydd cofnod o'r achos yn cael ei nodi ar y gofrestr. | Gall hyn fod yn berthnasol hyd yn oed pan fernir bod nam, ond nad oes risg i'r cyhoedd neu angen penderfynu ar ganlyniad gwahanol. |

## Cyngor

| Yr effaith ar gofrestriad | Amgylchiadau pan allai hyn fod yn berthnasol |
|---|---|
| Mae'r pwyllgor yn rhoi cyngor i'r gweithiwr proffesiynol am unrhyw fater y mae'n ei ystyried yn angenrheidiol neu'n ddymunol. Ni fydd yn cael ei gofnodi ar y gofrestr. | Nid oes angen rhoi camau ar waith i gyfyngu ar hawl gweithiwr proffesiynol i ymarfer ac nid oes risg barhaus i gleifion na'r cyhoedd.<br><br>Dim ond pan fernir nad oes nam ar addasrwydd i ymarfer y gellir rhoi cyngor i weithiwr proffesiynol.<br><br>Nid yw'r pryderon yn gyfystyr â nam ar addasrwydd i ymarfer ond maent yn ddigon difrifol i fod angen ymateb ffurfiol. Dylai'r pwyllgor egluro pam mae angen ymateb ffurfiol er bod 'dim nam' wedi'i ganfod. |

## Rhybudd

| Yr effaith ar gofrestriad | Amgylchiadau pan allai hyn fod yn berthnasol |
|---|---|
| Mae'r pwyllgor yn rhoi rhybudd i'r gweithiwr proffesiynol. Bydd manylion y rhybudd hwn yn cael eu cofnodi ar y gofrestr. | Gellir rhoi rhybudd hefyd pan na fernir nad oes unrhyw nam (gweler 'cyngor' uchod).<br><br>Mae angen dangos i weithiwr proffesiynol, ac yn ehangach i'r proffesiwn a'r cyhoedd, fod yr ymddygiad yn is na'r safonau derbyniol.<br><br>Nid oes angen rhoi camau ar waith i gyfyngu ar hawl gweithiwr proffesiynol i ymarfer ac nid oes risg barhaus i gleifion na'r cyhoedd, ond mae angen cydnabod yn gyhoeddus bod yr ymddygiad yn annerbyniol. |

## Amodau

| Yr effaith ar gofrestriad | Amgylchiadau pan allai hyn fod yn berthnasol |
|---|---|
| Mae amodau[32] yn rhoi cyfyngiadau penodol ar gofrestriad gweithiwr proffesiynol am y cyfnod a nodir gan y Pwyllgor (hyd at dair blynedd). Bydd manylion yr amodau hyn yn cael eu cofnodi ar y gofrestr. | Mae tystiolaeth o berfformiad gwael, neu ddiffygion sylweddol mewn ymarfer proffesiynol, ond mae'r pwyllgor yn fodlon y gall y gweithiwr proffesiynol ymateb yn gadarnhaol i hyfforddiant a goruchwyliaeth.<br><br>Nid oes risg sylweddol i'r cyhoedd, ac mae'n ddiogel i'r gweithiwr proffesiynol ddychwelyd i ymarfer ond gyda chyfyngiadau. |

## Gwahardd dros dro

| Yr effaith ar gofrestriad | Amgylchiadau pan allai hyn fod yn berthnasol |
|---|---|
| Mae gwaharddiad dros dro yn atal gweithiwr proffesiynol rhag ymarfer am gyfnod penodol a nodir gan y pwyllgor (hyd at 12 mis).<br><br>Bydd manylion yr amodau hyn yn cael eu cofnodi ar y gofrestr. | Mae'r pwyllgor o'r farn nad yw rhybudd neu amodau yn ddigonol i ddelio ag unrhyw risg i ddiogelwch cleifion neu i ddiogelu'r cyhoedd, neu y byddent yn tanseilio ffydd y cyhoedd.<br><br>Pan fydd angen tynnu sylw'r proffesiwn a'r cyhoedd bod ymddygiad y gweithiwr proffesiynol yn annerbyniol ac yn anaddas i aelod o'r proffesiwn fferylliaeth. Hefyd pan fo angen hyn i gadw ffydd y cyhoedd yn y proffesiwn. |

[32] Wedi'u cymryd o fanc amodau safonol sydd ar gael i'r pwyllgor: **https://www.pharmacyregulation.org/sites/default/files/document/good_decision_making_undertakings_bank_january_2016_welsh.pdf**

## Dileu

| Yr effaith ar gofrestriad | Amgylchiadau pan allai hyn fod yn berthnasol |
|---|---|
| Bydd cofnod y gweithiwr proffesiynol ar gofrestr y CFfC yn cael ei ddileu ac ni fydd bellach yn gallu gweithio fel gweithiwr fferyllol proffesiynol ym Mhrydain.[33]. | Mae dileu cofrestriad gweithiwr proffesiynol wedi'i neilltuo ar gyfer y camymddwyn mwyaf difrifol. Ni all y pwyllgor ddewis y canlyniad hwn mewn achosion sy'n ymwneud yn unig ag iechyd gweithiwr proffesiynol. Dylai'r pwyllgor ystyried y canlyniad hwn pan fo ymddygiad y gweithiwr proffesiynol yn anghydnaws yn sylfaenol â bod yn weithiwr proffesiynol cofrestredig. |

4.4 Gall y pwyllgor hefyd roi cyngor[34] i unrhyw berson arall neu gorff arall sy'n rhan o'r ymchwiliad i'r honiad ar unrhyw fater sy'n deillio o'r honiad, neu'n gysylltiedig â'r honiad[35].

4.5 Os oes gan weithiwr proffesiynol gofnod mewn mwy nag un rhan o'r gofrestr, rhaid i'r pwyllgor gynhyrchu penderfyniad ysgrifenedig ar wahân ar gyfer pob rhan o'r gofrestr. Gall y pwyllgor benderfynu ar un canlyniad ar gyfer pob rhan o'r gofrestr, neu ganlyniadau gwahanol ar gyfer gwahanol rannau o'r gofrestr.

## Achosion iechyd

4.6 Os yw'r pwyllgor yn penderfynu bod nam ar addasrwydd gweithiwr proffesiynol i ymarfer oherwydd salwch corfforol neu feddyliol yn unig, ni all gyfeirio bod y gweithiwr proffesiynol yn cael ei ddileu o'r gofrestr[36] yn y prif wrandawiad. Yn achos honiad iechyd, gall y cadeirydd ei gwneud yn ofynnol i'r person dan sylw gytuno i gael ei archwilio'n feddygol gan ymarferydd meddygol cofrestredig o ddewis i CFfC[37].

## Angen asesiad iaith

4.7 Mae gan y pwyllgor y pŵer i'w gwneud yn ofynnol i'r gweithiwr proffesiynol gael asesiad iaith. Gall y cadeirydd roi cyfarwyddyd sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r gweithiwr proffesiynol[38]:

- sefyll arholiad neu asesiad arall ar eu gwybodaeth o'r Saesneg, a
- rhoi tystiolaeth i'r cofrestrydd o ganlyniad yr arholiad neu'r asesiad hwnnw

[33] Rhaid i'r ymgeisydd aros am 5 mlynedd cyn gwneud cais i gael ei adfer i'r gofrestr.
[34] Boed canfyddiad o nam ai peidio
[35] Erthygl 54 (5) - Gorchymyn Fferylliaeth 2010
[36] Erthygl 54 (7) - Gorchymyn Fferylliaeth 2010
[37] Rheol 13 (1) (a) - Gorchymyn Cyngor y Cyngor Fferyllol Cyffredinol (Rheolau Addasrwydd i Ymarfer a Diarddel ac ati) 2010
[38] Rheol 6 (4) (e) - Gorchymyn Cyngor y Cyngor Fferyllol Cyffredinol (Rheolau Addasrwydd i Ymarfer a Diarddel ac ati) 2010

4.8 Gall y pwyllgor orchymyn hyn os yw'n credu nad oes gan berson sydd wedi'i gofrestru fel gweithiwr fferyllol proffesiynol y wybodaeth sydd ei hangen o'r iaith Saesneg i ymarfer yn ddiogel ac yn effeithiol fel gweithiwr fferyllol proffesiynol ym Mhrydain. Os yw'r pwyllgor yn ystyried y math hwn o achos dylai ystyried y canllawiau cyhoeddedig.

## Cytuno ar addewidion

4.9 Mae gan y pwyllgor y pŵer, pan fo'r gweithiwr proffesiynol yn cyfaddef bod nam ar ei ffitrwydd i ymarfer, i gytuno ar addewidion[39]. Addewidion gan y gweithiwr proffesiynol yw'r rhain, ar bethau y byddant neu na fyddant yn eu gwneud yn y dyfodol. Gallant gynnwys cyfyngiadau ar eu hymarfer neu eu hymddygiad neu ymrwymiad i gael eu goruchwylio neu eu hailhyfforddi. Bydd addewidion nad ydynt yn gysylltiedig ag iechyd yn cael eu cofnodi ar y gofrestr ar-lein[40].

4.10 Dim ond os yw'r pwyllgor yn fodlon y bydd y gweithiwr proffesiynol yn cydymffurfio â nhw y bydd addewidion yn briodol - er enghraifft, oherwydd bod y gweithiwr proffesiynol wedi dangos gwir fewnwelediad i'w ymddygiad a'r potensial i wella. Gall y cofrestrydd gyfeirio'r mater at y pwyllgor ar gyfer gwrandawiad adolygu os:

- Bydd gweithiwr proffesiynol yn methu â chydymffurfio ag addewid, neu
- Pan fo iechyd neu berfformiad y gweithiwr proffesiynol yn dirywio neu'n rhoi mwy o bryder, mewn ffordd arall, ynghylch ei addasrwydd i ymarfer[41].

## Cyrff corfforaethol

4.11 Mae gan y pwyllgor y pŵer, os yw'n credu ei fod yn briodol, i gytuno ar addewidion priodol gyda'r parti 'adran 80'[42] neu roi cyngor neu rybudd, yn hytrach na rhoi cyfarwyddyd o dan adran 80 Deddf Meddyginiaethau 1968 i ddileu'r corff corfforaethol o'r gofrestr[43].

4.12 Os daw'r CFfC i wybod bod parti wedi methu â chydymffurfio ag unrhyw addewidion y cytunwyd arnynt, rhaid i'r pwyllgor[44]:

- ystyried y mater eto, ac
- ailystyried y canlyniad. Gall roi cyfarwyddyd yn lle dan adran 80(1) Deddf Meddyginiaethau 1968 yn erbyn y corff corfforaethol, neu o dan adran 80(4) yn erbyn unigolyn.

[39] Rheol 26 (1) - Gorchymyn Cyngor y Cyngor Fferyllol Cyffredinol (Rheolau Addasrwydd i Ymarfer a Diarddel ac ati) 2010

[40] **www.pharmacyregulation.org/sites/default/files/document/gphc_publication_and_disclosure_policy_july_2018.pdf**

[41] Rheol 45(3) - Gorchymyn Cyngor y Cyngor Fferyllol Cyffredinol (Rheolau Addasrwydd i Ymarfer a Diarddel ac ati) 2010

[42] Diffinnir yn Rheol 2 fel "unigolyn, neu gorff corfforaethol, sydd yn destun achos gerbron y Pwyllgor mewn cysylltiad â rhoi cyfarwyddyd o dan adran 80(1) neu (4) y Ddeddf (neu, lle bo'n briodol, eu cynrychiolwyr)"

Rheol 26 (2) - Gorchymyn Cyngor y Cyngor Fferyllol Cyffredinol (Rheolau Addasrwydd i Ymarfer a Diarddel ac ati) 2010

[44] Rheol 32(18) - Gorchymyn Cyngor y Cyngor Fferyllol Cyffredinol (Rheolau Addasrwydd i Ymarfer a Diarddel ac ati) 2010

4.13 Mae gan y pwyllgor hefyd y pŵer[45] i ymdrin â 'honiadau anghymhwyso' a wneir yn erbyn corff corfforaethol sy'n cynnal busnes manwerthu fferyllol. Gall y pwyllgor gyfarwyddo:

- y dylid anghymhwyso corff corfforaethol at ddibenion Rhan IV Deddf Meddyginiaethau 1968
- y dylid anghymhwyso 'cynrychiolydd' o'r corff corfforaethol rhag bod yn gynrychiolydd at ddibenion Rhan IV Deddf Meddyginiaethau 1968
- y dylai'r cofrestrydd ddileu o'r gofrestr bob lleoliad neu rai lleoliadau lle mae'r corff corfforaethol yn cynnal busnes manwerthu fferyllol ynddyn nhw
- y dylai'r cofrestrydd ddileu o'r gofrestr pob lleoliad neu rai lleoliadau, am gyfnod cyfyngedig, lle mae'r corff corfforaethol yn cynnal busnes manwerthu fferyllol ynddyn nhw[46]

## Dod ag erlyniad

4.14 Os yw'r pwyllgor yn credu y dylai'r CFfC ystyried defnyddio ei bwerau i ddwyn achos troseddol, rhaid iddo ddweud wrth y cofrestrydd am hyn[47].

[45] Adran 80 Deddf Meddyginiaethau 1968
[46] Adran 80 (3) Deddf Meddyginiaethau 1968
[47] **www.pharmacyregulation.org/sites/default/files/gp201489_gphc_criminal_prosecution_policy.pdf**

# 5. Penderfynu ar ganlyniad

5.1 Wrth wneud ei benderfyniad, rhaid i'r pwyllgor gofio amcanion cyffredinol y CFfC. Dylai'r pwyllgor hefyd ystyried yr ystod lawn o ganlyniadau. Dylai ddefnyddio ei ddisgresiwn a phenderfynu ar ganlyniad sy'n angenrheidiol ac yn gymesur. Ystyr 'cymesur' yw na ddylai canlyniad fod yn fwy difrifol nag sydd angen iddo fod i gyflawni'r nod.[48]. Dylai'r pwyllgor hefyd sicrhau bod unrhyw ganlyniad yn ddigonol i ddiogelu'r cyhoedd. Mae hyn yn golygu ystyried:

- a yw'n ddigonol i amddiffyn iechyd, diogelwch a lles y cyhoedd
- a yw'n ddigonol i gynnal ffydd y cyhoedd mewn fferylliaeth, ac
- a yw'n ddigonol i gynnal safonau proffesiynol priodol ac ymddygiad ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol

## Ffactorau allweddol i'w hystyried

5.2 Mae sicrhau bod gwrandawiad yn cyrraedd y canlyniad priodol yn bwysig ar gyfer ffydd y cyhoedd yn y proffesiwn ac yn y ffordd y caiff ei reoleiddio. Wrth benderfynu ar y canlyniad priodol, dylai'r pwyllgor ystyried:

- i ba raddau y mae'r gweithiwr proffesiynol wedi torri safonau[49] cyhoeddedig y CFfC
- buddiannau'r gweithiwr proffesiynol wedi eu pwyso a'u mesur yn erbyn budd y cyhoedd
- amcanion cyffredinol y CFfC
- amgylchiadau personol y gweithiwr proffesiynol ac unrhyw liniaru* y maent wedi'i gynnig neu y mae'r pwyllgor wedi'i nodi yn ei ganfyddiadau
- bod y penderfyniad yn ddigonol i ddiogelu'r cyhoedd
- unrhyw dystlebau neu eirdaon o ran cymeriad a roddwyd i gefnogi'r gweithiwr proffesiynol
- unrhyw ffactorau perthnasol a allai waethygu* ymddygiad y gweithiwr yn yr achos
- unrhyw ddatganiad o farn a roddwyd gan glaf neu unrhyw un neu rai arall yr effeithiwyd arnyn nhw gan ymddygiad y gweithiwr proffesiynol
- unrhyw gyflwyniadau a wnaed i'r pwyllgor gan gynrychiolydd y CFfC, y gweithiwr proffesiynol neu eu cynrychiolydd
- cynnwys y canllaw hwn
- unrhyw ganllawiau eraill a gyhoeddwyd gan y CFfC

** Gweler paragraffau 5.10 i 5.35 am esboniad o ffactorau lliniarol a gwaethygol.*

[48] Chaudhury v Cyngor Meddygol Cyffredinol [2002] UKPC 41
[49] Erthygl 48 (1) - Gorchymyn Fferylliaeth 2010

5.3 Er mwyn sicrhau bod y canlyniad yn gymesur, dylai'r pwyllgor ystyried pob canlyniad sydd ar gael, gan ddechrau ar yr isaf, a phenderfynu a yw'n briodol i'r achos. Os nad ydyw, dylai'r pwyllgor ystyried y canlyniad nesaf, ac yn y blaen, hyd nes y bydd yn penderfynu bod canlyniad penodol yn briodol[50].

5.4 Dylai'r pwyllgor hefyd ystyried y canlyniad yn union uwchben yr un y mae wedi penderfynu arno a rhoi rhesymau pam nad yw canlyniad mwy difrifol yn angenrheidiol nac yn gymesur.

5.5 Gall y cyfnod gwahardd dros dro fod hyd at uchafswm o 12 mis. Y pwyllgor sydd i benderfynu pa mor hir y dylai'r gwaharddiad dros dro fod, gan ystyried difrifoldeb neu ffactorau perthnasol yr achos penodol. Dylid ystyried y cyfnod yn erbyn ffeithiau'r achos a dylid bod yn gymesur. Rhaid i'r pwyllgor roi rhesymau dros y cyfnod o waharddiad y mae wedi'i ddewis, gan gynnwys y ffactorau yn yr achos a arweiniodd at benderfynu bod y cyfnod penodol o waharddiad yn briodol. Mae hyn yn berthnasol boed y pwyllgor wedi dewis gwaharddiad o 12 mis neu gyfnod byrrach.

5.6 Ni all y cyfnod ar gyfer amodau ar ymarfer fod yn fwy na thair blynedd. Mater i'r pwyllgor yw penderfynu pa amodau i'w rhoi ac am ba hyd y dylent bara. Dylid gosod amodau i ddiogelu'r cyhoedd neu am resymau eraill er budd y cyhoedd neu er budd y gweithiwr proffesiynol.

## Budd y cyhoedd

5.7 Wrth ddod i benderfyniad ar ba ganlyniad i'w osod, dylai'r pwyllgor roi pwyslais priodol ar budd ehangach y cyhoedd[51]. Yng nghyd-destun gwrandawiad addasrwydd i ymarfer, mae ystyriaethau lles y cyhoedd yn cynnwys:

- diogelu'r cyhoedd
- cynnal ffydd y cyhoedd yn y proffesiwn
- cynnal safonau ymddygiad priodol

5.8 Mae gan y pwyllgor hawl i roi mwy o bwyslais ar les y cyhoedd, nag ar y canlyniadau i'r gweithiwr proffesiynol[52]. Hyd yn oed os bydd canlyniad yn cael effaith gosbol,[53] gall dal fod yn briodol os mai ei ddiben yw cyflawni un neu ragor o'r tri chanlyniad a restrir ym mharagraff 5.7[54]. Dylai'r pwyllgor sicrhau bod ystyriaethau lles y cyhoedd yn cael eu hadlewyrchu yn yr esboniad o'r rhesymau dros benderfynu ar ganlyniad penodol.

5.9 Gwnaeth Mr. Ustus Newman[55] disgrifio canllawiau sancsiynau dangosol a budd y cyhoedd yn y ffordd ganlynol: "Mae'r rhain yn ganllawiau defnyddiol iawn ac maent yn ffurfio fframwaith sy'n

[50] Giele v Cyngor Meddygol Cyffredinol [2005] EWHC 2143 (Gwein.)
[51] CHRE v Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (Grant)
[52] Marinovich v Cyngor Meddygol Cyffredinol [2002] UKPC36
[53] Bolton v Cymdeithas y Gyfraith [1994] 2 All ER 286
[54] Laws LJ yn Rashid a Fatnani v CMC [2007] 1 WLR 1460
[55] R (ar gais Abrahaem) v CMC [2004]

galluogi unrhyw dribiwnlys, gan gynnwys y llys hwn, i ffocysu ei sylw ar y materion perthnasol. Ond mae'n rhaid dychwelyd at yr ymarfer hanfodol sydd ei angen nawr o dan y gyfraith o ran yr hyn sydd y tu ôl i bwrpas sancsiynau, sydd, fel y nodais eisoes, ddim i fod yn gosbol ond i ddiogelu budd y cyhoedd; mae budd y cyhoedd yn label sy'n arwain at feysydd i'w hystyried ar wahân."

## Ffactorau lliniarol a gwaethygol perthnasol

5.10 Pan fydd pwyllgor yn gwneud penderfyniadau ynghylch addasrwydd fferyllydd neu dechnegydd fferyllol i ymarfer a'r canlyniad priodol, rhaid iddo fod yn sicr ei fod wedi derbyn y dystiolaeth sydd ei hangen i wneud penderfyniad teg a chymesur. Rhaid iddo ystyried cyd-destun achos. Trwy 'gyd-destun' rydym yn golygu'r amgylchiadau y digwyddodd y digwyddiad honedig ynddyn nhw, gan gynnwys unrhyw faterion personol perthnasol (profedigaeth, er enghraifft), a'r hyn sydd wedi digwydd ers i'r digwyddiad honedig ddigwydd. Mae hyn yn cynnwys ystyried unrhyw ffactorau gwaethygol a lliniarol (yn dibynnu ar amgylchiadau unigol pob achos), a chofio mai'r prif nod yw diogelu'r cyhoedd.

5.11 Ffactorau gwaethygol yw amgylchiadau achos sy'n gwneud yr hyn a ddigwyddodd yn fwy difrifol. Mae ffactorau lliniarol yn rhai sy'n cael effaith i'r gwrthwyneb i hynny. Gallant ymddangos mewn ffeithiau achos fel amgylchiadau, ymddygiad, ymagweddau neu weithredoedd.

5.12 Mae penderfynu a yw ffactor yn gyfystyr â bod yn lliniarol neu'n waethygol yn fater i'r pwyllgor. Ym mhob achos, rhaid i'r pwyllgor ystyried nodweddion lliniarol a gwaethygol yn y dystiolaeth y maent wedi'i hystyried.

## Amgylchiadau

5.13 Gall yr amgylchiadau lle cododd yr honiad gynnwys ffactorau pwysig wrth wneud penderfyniad ar y canlyniad. Efallai y bydd y pwyllgor am ystyried y goblygiadau neu'r risgiau i ddiogelwch cleifion o ganlyniad i'r digwyddiad. Efallai y bydd hefyd am ystyried, er enghraifft:

- a oedd y digwyddiad yn un 'un tro' neu'n un gafodd ei ailadrodd
- y lleoliad lle digwyddodd y digwyddiad
- unrhyw faterion personol perthnasol
- a oes hanes perthnasol o bryderon addasrwydd i ymarfer

5.14 Dylent ystyried a oedd y digwyddiad yn cynnwys:

- camddefnyddio neu dorri ymddiriedaeth
- camddefnyddio ei safle proffesiynol gan y gweithiwr
- unrhyw fantais ariannol ar ran y gweithiwr proffesiynol
- i ba raddau y cafodd gweithredoedd ac ymddygiad y gweithiwr proffesiynol eu heffeithio arnyn nhw drwy fod yn ddioddefwyr camwahaniaethu

5.15 Dylai hefyd ystyried unrhyw ganfyddiadau pwyllgor blaenorol sy'n ymwneud â'r gweithiwr proffesiynol ac sy'n berthnasol i'r achos.

5.16 Gallai ffactorau eraill gynnwys a oedd y gweithiwr proffesiynol o dan ddylanwad alcohol neu gyffuriau, neu os oedd niwed neu risg o niwed i glaf neu berson arall oedd yn bresennol.

## Ymddygiad ac ymagwedd

5.17 Mae tystiolaeth o ymddygiad ac ymagwedd y gweithiwr proffesiynol cyn, yn ystod ac ar ôl y digwyddiad dan sylw a chyn ac yn ystod y gweithdrefnau dilynol, hefyd yn bwysig. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, gydweithredu â'r ymchwiliad neu fod yn onest gyda chleifion a'r cyhoedd pan fo pethau wedi mynd o chwith. Efallai y bydd y pwyllgor am ystyried a yw'r gweithiwr proffesiynol wedi:

- dangos unrhyw edifeirwch neu fynd ati i unioni pethau – gan gynnwys drwy gynnig ymddiheuriad
- dangos mewnwelediad i'r pryderon dan sylw a rhoi camau ar waith i osgoi eu hailadrodd
- bod yn agored ac yn onest gyda'r pwyllgor

5.18 Gellir cyflwyno tystiolaeth hefyd drwy eirdaon a thystlebau. Rydym yn dweud mwy am hyn isod.

## Mewnwelediad ac adfer

5.19 Mae'r CFfC yn credu bod mewnwelediad ac adfer yn ffactorau allweddol i bwyllgorau eu hystyried yn ystod gweithdrefnau addasrwydd i ymarfer. Disgwylir i weithiwr proffesiynol:

- allu derbyn a deall y dylent fod wedi ymddwyn yn wahanol (mewnwelediad), a
- rhoi camau ar waith i atal ailadrodd (adfer)

5.20 Wrth asesu mewnwelediad bydd angen i'r pwyllgor ystyried ffactorau megis a yw'r gweithiwr proffesiynol

- wedi dangos gwir fewnwelediad – nid yn unig yn gyson drwy gydol y gwrandawiad ond hefyd drwy eu gweithredoedd ar ôl i'r digwyddiad ddigwydd, ac
- wedi dangos dealltwriaeth a mewnwelediad ar ôl i'r pwyllgor ddod i benderfyniad.

5.21 Wrth benderfynu pa gamau i'w rhoi ar waith, mae'n rhaid i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau ystyried:

- natur y pryder
- a ellir unioni'r gweithredoedd, ac
- os gall gweithiwr proffesiynol ddangos mewnwelediad

5.22 Efallai y bydd rhai achosion lle mae ymddygiad gweithiwr proffesiynol mor ddifrifol fel nad yw'n adferadwy. Mae hyn yn golygu, er y gall y gweithiwr proffesiynol ddarparu tystiolaeth o fewnwelediad ac adfer, mae'r ymddygiad mor ddifrifol fel nad yw'n briodol ystyried y dystiolaeth hon wrth ystyried canlyniad. Mae enghreifftiau lle gallai hyn ddigwydd yn cynnwys pryderon sy'n ymwneud ag ymddygiad gwahaniaethol neu gamymddwyn rhywiol. Mae hyn oherwydd bod angen gweithredu rheoleiddiol i sicrhau diogelwch y cyhoedd a chynnal ffydd y cyhoedd mewn fferylliaeth, a gall cyfranogiad gweithiwr proffesiynol yn y materion hyn danseilio hyn.

## Mynegi edifeirwch ac ymddiheuro

5.23 Mae'r adran hon yn ymdrin yn benodol â sut y gallai ffactorau diwylliannol ac amgylchiadau eraill fod yn berthnasol i fynegiant o edifeirwch ac ymddiheuriad a sut mae pobl yn dangos mewnwelediad. Mae rhagor o wybodaeth am y ddyletswydd gonestrwydd a'r gofyniad i weithwyr fferyllol proffesiynol fod yn agored ac yn onest yn adran 6 isod.

5.24 Mae trin pawb yn deg yn cynnwys bod yn ymwybodol o wahaniaethau diwylliannol ac amgylchiadau eraill (megis salwch) a allai effeithio ar y ffordd y mae pobl yn ymateb i sefyllfaoedd neu'n cyfathrebu.

5.25 Dylai'r pwyllgor fod yn ymwybodol y gallai gwahaniaethau diwylliannol neu amgylchiadau personol gweithiwr proffesiynol, megis salwch, effaith cyflwr iechyd neu anabledd effeithio ar

y ffordd y mae unigolion yn cyfathrebu ac yn eu mynedig eu hunain. Gallai hyn effeithio, er enghraifft, ar sut mae ymddiheuriad, mewnwelediad neu fynegiant o edifeirwch yn cael ei fframio a'i gyflwyno. Mae hyn yn arbennig o wir yn achos unigolion sy'n cyfathrebu mewn ail iaith ac a allai fod yn ddefnyddio confensiynau o'u hiaith gyntaf i lunio eu brawddegau neu ddatganiadau. Gallai hyn gael ei adlewyrchu yn eu goslef a gallai newid yr ystyr a fwriedir wrth siarad yn eu hail iaith. O ganlyniad, efallai na fyddant yn glynu wrth y confensiynau nac yn dilyn patrymau cynnil neu naws eu hail iaith.

5.26 Gall mynegiadau o ymddiheuriad, a sut mae ymddiheuriad yn cael ei gyfathrebu, wahaniaethu rhwng diwylliannau, a gall crefydd a chredoau effeithio arnyn nhw. Er enghraifft, mewn rhai diwylliannau nid yw ymddiheuriadau ysgrifenedig yn gyffredin o gwbl. Yn ogystal, dylai'r pwyllgor fod yn ymwybodol y gall unigolyn niwroamrywiol hefyd fynegi ei edifeirwch neu dristwch mewn ffordd wahanol.

5.27 Efallai y bydd gwahaniaethau hefyd yn y ffordd y mae unigolion yn defnyddio ciwiau di-eiriau i gyfathrebu. Bydd hyn yn cynnwys, ymhlith pethau eraill, mynegiant yr wyneb, cyswllt llygaid ac ystumiau. Er enghraifft, efallai y bydd gweithiwr proffesiynol sydd â nam ar ei olwg yn ei chael hi'n anodd cysylltu ag aelodau'r pwyllgor lygad i lygad. Dylai'r pwyllgor fod yn ymwybodol o'r materion hyn ac yn sensitif iddynt wrth benderfynu sut mae gweithiwr proffesiynol yn fframio ei fewnwelediad a'i edifeirwch, ac wrth farnu ei ymddygiad a'i ymagwedd yn ystod y gwrandawiad.

5.28 Dylai'r pwyllgor fod yn ymwybodol o'r materion hyn wrth asesu pa bwyslais i roi ar ffactorau perthnasol wrth benderfynu ar sancsiynau. Dylai'r pwyllgor nodi nad yw'n fater o sut mae unigolion yn cyfathrebu yn unig, a dylai hefyd ystyried y cymorth y gallai fod ei hangen ar weithwyr proffesiynol i ddeall y wybodaeth sy'n cael ei chyfleu iddynt yn ystod y gwrandawiad.

## Tystebau

5.29 Gall tystebau (neu eirdaon) gael effaith bwysig ar ganlyniad gwrandawiad addasrwydd i ymarfer gan y gallai'r canolwr ddarparu tystiolaeth neu wybodaeth sy'n berthnasol i'r graddau y mae'r gweithiwr proffesiynol naill ai wedi adfer ei fethiannau, myfyrio ar neu ddangos mewnwelediad i'w methiannau neu fynegi edifeirwch neu ymddiheuriadau am eu methiannau. Fodd bynnag, mae'n annhebygol y bydd geirdaon a thystebau sy'n cefnogi'r gweithiwr proffesiynol a/neu'n rhoi barn ar eu cymeriad yn gyffredinol yn uniongyrchol berthnasol i'r cwestiwn o nam ar hyn o bryd a/neu i'r penderfyniad ar gosb briodol.

5.30 Dylai pwyllgorau ystyried yn gyntaf a yw'r rhain yn ddilys ac yn rhai y gellir dibynnu arnynt. Dylai'r pwyllgor ystyried a oedd awduron y tystebau yn ymwybodol o'r digwyddiadau a arweiniodd at y gwrandawiad a pha bwysau, os o gwbl, i'w roi i'r tystebau. Mater i'r pwyllgor yw'r pwysau a roddir ar dystiolaeth mewn geirdaon a thystebau, fodd bynnag gall y pwyllgor roi mwy o bwyslais ar dystiolaeth o'r math hwn pan fo wedi'i dilysu.

5.31 Dylai'r pwyllgor fod yn ymwybodol y gallai fod rhesymau diwylliannol neu resymau eraill mewn rhai amgylchiadau pam na fydd gweithiwr proffesiynol eisiau gofyn am dystebau (neu eirdaon). Er enghraifft, gall rhannu gwybodaeth am eu hymchwiliad gydag aelodau o'r teulu neu gydweithwyr effeithio ar eu bywydau preifat, a'u henw da gyda'u teulu a'u cymuned. Dylai'r pwyllgor gadw hyn mewn cof a pheidio â gwneud rhagdybiaethau ynghylch pam nad oes tystiolaeth o'r math hwn ar gael. Yn yr un modd, ni ddylai'r pwyllgor ddyfalu ynghylch yr hyn a allai fod wedi cael ei ddweud pe bai geirdaon neu dystebau wedi eu cyflwyno.

5.32 Dylai'r pwyllgor nodi nad yw gwahaniaethau o ran maint, ansawdd ac ehangder geirdaon cyfeiriadau a thystebau rhwng achosion o reidrwydd yn ymwneud â statws da gweithiwr fferyllol proffesiynol. Dylai hefyd nodi y gallai gweithwyr fferyllol proffesiynol a gymhwysodd y tu allan i'r DU ac sydd newydd ddechrau gweithio yn y DU ei chael hi'n anodd cael geirdaon a thystebau.

5.33 Yn yr un modd â ffactorau lliniarol neu waethygol eraill, bydd angen pwyso unrhyw eirdaon a thystebau yn briodol yn erbyn natur y ffeithiau a ganfuwyd a'u hystyried ar gam priodol y broses. Bydd angen i'r pwyllgor ystyried ar ba gam y mae'n briodol ystyried materion lliniarol a thystebau personol.

5.34 Dylid ystyried tystebau a baratowyd cyn gwrandawiad yng ngoleuni'r canfyddiadau ffeithiol a wneir yn y gwrandawiad. Gall tystebau neu dystiolaeth arall sy'n cadarnhau'r camau a roddwyd ar waith gan y gweithiwr proffesiynol i unioni'r ymddygiad a arweiniodd at y gwrandawiad (er enghraifft gan gydweithwyr proffesiynol) a thystiolaeth o sut y gallai'r ffordd y mae'r gweithiwr proffesiynol yn ymarfer ar hyn o bryd fod yn berthnasol pan fo'r pwyllgor yn ystyried nam ar addasrwydd i ymarfer. Ni ddylid gadael y dystiolaeth hon i'r cam canlyniadau[56].

## Camau Gweithredu

5.35 Mae camau gweithredu'r gweithiwr proffesiynol yn elfennau pwysig i'r pwyllgor eu hystyried wrth benderfynu ar ganlyniad. Mae'r ffactorau y gallai'r pwyllgor eu hystyried yn cynnwys:

- a oedd yr ymddygiad wedi'i gynllunio ymlaen llaw a peidio
- a geisiodd y gweithiwr proffesiynol gelu'r camymddwyn
- a wnaeth yr ymddygiad ddigwydd yn aml dros amser neu gael ei ailadrodd
- a wnaeth y gweithiwr proffesiynol gamfanteisio ar berson agored i niwed

[56] Dywedodd Mr Ustus McCombe yn Azzam v Cyngor Meddygol Cyffredinol [2008]

# 6. Rhagor o arweiniad ar feysydd penodol

6.1 Yn aml mae rhai mathau o achosion mewn gwrandawiadau addasrwydd i ymarfer sy'n fwy cymhleth na'r arfer o ran penderfynu pa ganlyniad i'w ddewis. Credwn y bydd rhoi rhagor o arweiniad - gan gynnwys y gyfraith achosion berthnasol, egwyddorion cyfreithiol a barn y CFfC ar faterion penodol - yn helpu i sicrhau gwneud penderfyniadau cymesur a chyson. Bwriad hyn yw helpu pwyllgorau wrth wneud penderfyniadau.

## Camymddwyn rhywiol

6.2 Mae camymddwyn rhywiol – beth bynnag fo'r amgylchiadau - yn tanseilio ffydd y cyhoedd yn y proffesiwn ac yn cael effaith sylweddol ar enw da gweithwyr fferyllol proffesiynol. Mewn rhai amgylchiadau, gall beri risg sylweddol ac uniongyrchol i ddiogelwch cleifion. Mae'n cwmpasu ystod eang o ymddygiad, gan gynnwys aflonyddu rhywiol, ymosodiadau rhyw, archwiliadau corfforol cleifion heb gydsyniad neu heb fod angen, a throseddau rhyw difrifol sy'n arwain at euogfarnau troseddol.

6.3 Mae'r CFfC yn credu y bydd rhai enghreifftiau o gamymddwyn rhywiol yn anghydnaws â pharhau i fod yn gofrestredig fel fferyllydd neu dechnegydd fferyllol. Mae'n debygol mai dileu o'r gofrestr fydd y canlyniad mwyaf priodol yn yr amgylchiadau hyn, oni bai bod tystiolaeth o ffactorau clir a lliniarol sy'n peri i bwyllgor benderfynu nad yw canlyniad o'r fath yn briodol. Mae'r camymddwyn yn arbennig o ddifrifol os:

- bydd euogfarn o drosedd ryw ddifrifol
- bydd camddefnydd o'r safle arbennig o ymddiriedaeth sydd gan gofrestrydd
- yw'n cynnwys plentyn (gan gynnwys cael mynediad at, gwylio, neu ymwneud mewn ffordd arall â delweddau o gam-drin plant yn rhywiol[57]) neu oedolyn agored i niwed[58]
- yw'n ofynnol i'r gweithiwr proffesiynol fod wedi cofrestru fel troseddwr rhyw neu wedi'i gynnwys ar restr waharddedig

6.4 Nid yw hon yn rhestr gyflawn. Ei diben yw dangos mewn achosion o'r math hwn, o ystyried y risg i gleifion a'r effaith ar ffydd y cyhoedd yn y proffesiwn, ei bod yn debygol mai dileu o'r gofrestr fydd y canlyniad mwyaf cymesur a phriodol[59]. Os bydd pwyllgor yn penderfynu ar

[57] Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd neu gynllun Disclosure Scotland
[58] CHRP v (1) CDC a (2) Mr Fleischmann
[59] Dr Haikel v CMC (Apêl y Cyfrin Gyngor Rhif 69 o 2001)

ganlyniad heblaw dileu, dylai esbonio'n llawn pam y gwnaeth y penderfyniad hwn. Mae hyn er mwyn i bobl nad ydyn nhw wedi clywed dystiolaeth yr achos yn gallu deall y penderfyniad.

6.5 Gall y camymddwyn ddigwydd mewn llawer o leoliadau. Gall y rhain gynnwys:

- mewn lleoliad preifat gydag aelodau o'r teulu
- mewn cyd-destun cymdeithasol, neu
- pan fo gweithiwr yn gweithio gyda chleifion a chydweithwyr.

Mae'n bwysig, felly, bod y pwyllgor yn ystyried pob achos yn ofalus ar sail ei nodweddion ei hun, ac yn gwneud penderfyniadau yng ngoleuni amgylchiadau penodol yr achos a'r risg a berir i gleifion a'r cyhoedd. Dylai'r pwyllgor hefyd gyfeirio at ganllawiau'r CFfC ar gynnal ffiniau rhyw clir[60].

6.6 Gall gweithiwr proffesiynol fod wedi cyflawni trosedd ond heb ei gynnwys ar restr waharddedig. Os felly, ac os yw'r pwyllgor yn ansicr a ddylai ddychwelyd i'r gwaith heb unrhyw ddarpariaethau i sicrhau diogelwch y cyhoedd, ni ddylai'r gweithiwr proffesiynol gael cofrestriad anghyfyngedig. Nid oes angen i bwyllgor wneud argymhellion ynghylch a ddylai gweithiwr proffesiynol gael ei gyfeirio at awdurdod gwahardd, gan y bydd hyn yn cael ei ystyried gan y CFfC.

6.7 O ystyried rôl fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol, a'u hagosrwydd at gleifion a'u cyswllt rheolaidd â chleifion (gan gynnwys plant ac oedolion agored i niwed), mae potensial hefyd ar gyfer perthnasoedd sy'n amhriodol ond nad ydynt yn rhywiol. Barn y CFfC yw y dylai pwyllgorau ystyried o ddifrif unrhyw ymddygiad rheibus, neu gam-drin safle breintiedig, sy'n arwain at berthnasoedd amhriodol gyda chleifion agored i niwed, neu gyda chydweithwyr. Dylai pwyllgorau ystyried cyd-destun y berthynas yn ofalus a pha mor agored i niwed y mae'r bol dan sylw wrth benderfynu ar ganlyniad.

## Anonestrwydd

6.8 Mae rheoleiddwyr yn sicrhau bod ffydd y cyhoedd mewn proffesiwn yn cael ei gynnal. Mae hon yn egwyddor sydd wedi hen ennill ei phlwyf ac mae ein safonau'n [61]nodi y dylai gweithwyr proffesiynol weithredu'n onest a gydag integriti er mwyn cynnal ffydd a hyder y cyhoedd yn y proffesiwn. Mae rhai gweithredoedd sydd, er nad ydynt yn peri risg uniongyrchol i'r cyhoedd, mor ddifrifol, fel eu bod yn tanseilio ffydd yn y proffesiwn yn ei gyfanrwydd. Mae'r CFfC yn credu bod anonestrwydd yn niweidio ffydd y cyhoedd, ac yn tanseilio integriti gweithwyr fferyllol proffesiynol. Fodd bynnag, gall achosion sy'n ymwneud ag anonestrwydd fod yn gymhleth – dylai pwyllgorau ystyried yn ofalus y cyd-destun a'r amgylchiadau lle digwyddodd yr anonestrwydd. Felly, er ei fod yn ddifrifol, nid oes rhagdybiaeth o ddileu aelodaeth ym mhob achos sy'n ymwneud ag anonestrwydd.

[60] **Canllawiau ar gynnal ffiniau rhywiol clir**
[61] Erthygl 48 (1) - Gorchymyn Fferylliaeth 2010

6.9 Mae rhai gweithredoedd anonest mor ddifrifol fel y dylai'r pwyllgor ystyried dileu aelodaeth fel yr unig ganlyniad cymesur a phriodol. Mae hyn yn cynnwys honiadau sy'n cynnwys twyllo'r GIG neu gyflogwr yn fwriadol, ffugio cofnodion cleifion, neu anonestrwydd mewn treialon clinigol ar gyffuriau.

6.10 Wrth benderfynu ar y canlyniad priodol mewn achos sy'n ymwneud ag anonestrwydd, dylai'r pwyllgor gydbwyso'r holl faterion perthnasol, gan gynnwys unrhyw ffactorau gwaethygol a lliniarol. Mae'n bwysig deall y cyd-destun y digwyddodd y weithred anonest ynddo a dod i benderfyniad drwy ystyried y ffactorau allweddol. Yna dylai'r pwyllgor roi pwyslais priodol ar yr effaith y mae canfyddiad o anonestrwydd yn ei chael ar ffydd y cyhoedd yn y proffesiwn[62].

## Dyletswydd gonestrwydd

6.11 Mae gweithredu'n onest a bod yn agored pan fydd pethau'n mynd o chwith yn ddyletswydd hanfodol i bob gweithiwr fferyllol proffesiynol. Mae ein safonau cyhoeddedig yn dweud bod yn rhaid i weithwyr proffesiynol fod yn onest pan fydd pethau'n mynd o chwith.[63]. Mae'r CFfC yn credu ei bod yn bwysig bod amgylchedd a diwylliant mewn fferylliaeth lle mae perchnogion fferyllfeydd, fferyllwyr arolygol, fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol:

- yn agored ac yn onest gyda chleifion a'r cyhoedd pan fydd pethau'n mynd o chwith (oherwydd yr hyn maen nhw wedi'i wneud, neu'r hyn mae rhywun arall wedi'i wneud), ac
- yn gallu codi pryderon gyda chyflogwyr

6.12 Disgwylir i weithwyr proffesiynol fod yn agored ac yn onest gyda phawb sydd ynghlwm wrth ofal cleifion. Dylai pwyllgorau ystyried esboniadau gonest, mynegiannau o empathi ac ymddiheuriadau gan weithwyr proffesiynol fel camau cadarnhaol cyn ac yn ystod gwrandawiad. Fodd bynnag, ni fydd y rhain fel arfer yn gyfystyr â chyfaddef nam gan y gweithiwr proffesiynol. Felly, oni bai bod tystiolaeth i brofi fel arall, ni ddylai'r pwyllgor eu trin felly.

6.13 Mae'r cyd-ddatganiad ar onestrwydd yn nodi pwysigrwydd y mater hwn yn glir[64]. Felly, barn y CFfC yw y dylai pwyllgorau wir gymryd o ddifrif unrhyw ganfyddiad bod gweithiwr fferyllol proffesiynol wedi rhoi camau bwriadol ar waith i

- osgoi bod yn onest gyda chlaf neu gydag unrhyw un sy'n ymwneud â gofal claf, neu
- atal rhywun arall rhag bod yn onest.

6.14 Dylai ystyried canlyniadau ar ben uchaf y raddfa wrth ddelio ag achosion o'r math hwn.

[62] R v Cyngor Optegol Cyffredinol [2013] EWHC 1887 (Gwein.) a Siddiqui v Cyngor Meddygol Cyffredinol [2013] EWHC 1883
[63] Erthygl 48 (1) - Gorchymyn Fferylliaeth 2010
[64] **Datganiad ar y cyd ar ddyletswydd gonestrwydd proffesiynol**

## Ymddygiad gwahaniaethol

6.15 Mae ymddygiad ac agweddau gwahaniaethol anghyfreithlon yn tanseilio ffydd ac ymddiriedaeth y cyhoedd yn y proffesiynau fferylliaeth a gallant gael effaith ar enw da gweithwyr proffesiynol. Gall hefyd effeithio ar gynnal ymddiriedaeth gyda chleifion, cydweithwyr ac aelodau'r cyhoedd.

6.16 Mae gwahaniaethu anghyfreithlon yn golygu trin person yn annheg oherwydd ei nodweddion gwarchodedig65 (gweler isod). Fodd bynnag, mae amgylchiadau hefyd pan fo rhai mathau o wahaniaethu yn gyfreithlon o dan y Ddeddf Cydraddoldeb. Pan fyddwn yn sôn am bryderon sy'n cynnwys gwahaniaethu, rydyn ni'n cyfeirio at y math o ymddygiad sy'n anghyfreithlon o dan y Ddeddf Cydraddoldeb ac a fyddai'n cael ei ystyried yn driniaeth annheg.

6.17 Mae pob math o ymddygiad gwahaniaethol anghyfreithlon ar ran gweithwyr proffesiynol tuag at gleifion, y cyhoedd a chydweithwyr yn annerbyniol. Gall gwahaniaethu fod yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol a bodoli mewn sawl ffurf gan gynnwys aflonyddu ac erledigaeth66.

6.18 Yn bwysig, mae ganddo'r potensial i beri risg ddifrifol i ddiogelwch cleifion. Er enghraifft, lle mae gwahaniaethu wedi arwain at beidio â darparu triniaeth, neu oedi cyn darparu triniaeth, gall hyn effeithio ar les corfforol, emosiynol a/neu seicolegol claf neu aelod o'r cyhoedd a allai effeithio ar sut y maent yn defnyddio gwasanaethau iechyd yn y dyfodol. Pan fo gwahaniaethu tuag at gydweithwyr, yn ogystal ag unrhyw niwed a achosir iddynt, gall effeithio ar ddiogelwch cleifion trwy achosi methiannau o ran cyfathrebu a/neu yn y gwaith cydweithredol sydd ei angen i ddarparu gofal diogel i gleifion.

6.19 Mae'n rhaid i weithwyr fferyllol proffesiynol drin eu cydweithwyr a'u cleifion yn deg, beth bynnag fo'u dewisiadau bywyd a'u credoau. Yn unol â'n safonau, rydym yn disgwyl i weithwyr proffesiynol:

- gydnabod a gwerthfawrogi amrywiaeth, a pharchu gwahaniaethau diwylliannol – gan sicrhau bod pawb yn cael eu trin yn deg, beth bynnag fo'u gwerthoedd a'u credoau.
- cydnabod eu gwerthoedd a'u credoau eu hunain ond heb eu gorfodi ar bobl eraill
- derbyn cyfrifoldeb dros sicrhau nad yw gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn cael ei beryglu oherwydd gwerthoedd a chredoau personol

6.20 Wrth benderfynu ar ganlyniad, dylai'r pwyllgor gydbwyso'r holl faterion perthnasol, gan gynnwys unrhyw ffactorau gwaethygol a lliniarol. Er enghraifft, wrth ddelio â phryder sy'n honni gwahaniaethu ar sail ethnigrwydd neu hil, dylai'r Pwyllgor, wrth benderfynu a oedd yr ymddygiad wedi'i gymell yn hiliol, ystyried a oedd:

- Pwrpas wrth wraidd gweithredoedd/geiriau a oedd yn berthnasol yn lled sylweddol i hil; neu

65 Adran 1 y Ddeddf Cydraddoldeb 2010
66 Adran 26 y Ddeddf Cydraddoldeb

- a gyflawnwyd y weithred mewn ffordd oedd yn dangos gelyniaeth neu agwedd wahaniaethol tuag at y grŵp hil perthnasol67.

6.21 Oherwydd natur ddifrifol y mathau hyn o bryderon a'r effaith ar ffydd a hyder y cyhoedd yn y proffesiwn, dylai'r pwyllgor fel arfer ystyried canlyniadau ar ben uchaf y raddfa. Mae canlyniadau mwy difrifol yn debygol o fod yn briodol pan fo achos yn cynnwys gwahaniaethu yn erbyn cleifion, cydweithwyr neu bobl eraill sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig, naill ai o fewn neu y tu allan i'w bywyd proffesiynol neu lle bu patrwm o ymddygiad gwahaniaethol dro ar ôl tro, lle bu'r ymddygiad yn fwriadol, neu'n aml neu â chanlyniadau negyddol iawn i gleifion.

6.22 Gall hyn gynnwys:

- sylwadau cas ar lafar, gan gynnwys lleferydd casineb, neu ysgrifennu'n sarhaus (gan gynnwys ar y cyfryngau cymdeithasol neu lwyfannau cyhoeddus) wedi'i anelu at rywun oherwydd eu nodweddion gwarchodedig
- sylwadau ar y cyfryngau cymdeithasol neu lwyfannau cyhoeddus am grŵp penodol o bobl oherwydd eu nodweddion gwarchodedig
- ymddygiad digymell, gan gynnwys geiriau ar lafar neu mewn ysgrifen, cam-drin, delweddau, ystumiau, ymadroddion, dynwared, jôcs ac eraill
- gwahaniaethu, boed yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, yn erbyn unigolion neu grwpiau wrth ddarparu gwasanaethau
- trin claf yn llai ffafriol oherwydd nodwedd warchodedig
- trin cydweithiwr yn llai ffafriol oherwydd ei nodweddion gwarchodedig, er enghraifft peidio â chynnig cyfle hyfforddi neu ddatblygu, cyd-gyfrannu mewn gwahaniaethu gan eraill neu fethiant i herio arferion gwahaniaethol
- ffactorau cyffredinol eraill nad ydynt efallai'n cael eu cipio gan y ddeddfwriaeth o dan nodweddion gwarchodedig, er enghraifft, sy'n ymwneud â ffactorau economaidd-gymdeithasol.

67 Lambert-Simpson v CPIG (2023 EWHC 481 Gwein.)

## Mynegi pryderon

6.23 Mae'r CFfC yn credu mai penderfyniadau unigol gan weithwyr fferyllol proffesiynol sy'n cyfrannu'n bennaf ac yn y ffordd fwyaf cadarnhaol at welliannau yn ansawdd fferylliaeth ac wrth reoli risgiau i gleifion. Gall methu â mynegi pryderon arwain at fethiannau mewn gofal iechyd ac achosi risg sylweddol i gleifion.

6.24 Felly, rhaid i fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol weithredu i atal problemau rhag codi yn y lle cyntaf. Mae'n bwysig bod amgylchedd a diwylliant mewn fferylliaeth lle mae unigolion yn cael eu cefnogi i fynegi pryderon am safonau gofal a risgiau i ddiogelwch cleifion ac mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn y safonau[68].

6.25 Mae'r CFfC yn credu y dylai pwyllgor gymryd canfyddiad na wnaeth gweithiwr proffesiynol fynegi pryderon lle roedd diogelwch cleifion mewn perygl yn gwbl o ddifrif. Rhaid iddo ystyried canlyniadau ar ben uchaf y raddfa pan fydd achosion yn cynnwys methu â mynegi pryderon. Yn yr achosion mwyaf difrifol, rhaid iddo ddileu gweithwyr proffesiynol o'r gofrestr i gynnal ffydd y cyhoedd.

6.26 Mae ein canllawiau ar fynegi pryderon[69] yn esbonio pwysigrwydd codi pryderon, a'r camau y bydd angen i weithiwr fferyllol proffesiynol ystyried eu rhoi ar waith wrth fynegi pryder.

68Erthygl 48 (1) - Gorchymyn Fferylliaeth 2010
69 www.pharmacyregulation.org/sites/default/files/in_practice-_guidance_on_raising_concerns_may_2017.pdf

General Pharmaceutical Council
25 Canada Square, London E14 5LQ
T 020 3713 8000
E info@pharmacyregulation.org

@TheGPhC
TheGPhC
/company/general-pharmaceutical-council
www.pharmacyregulation.org